I Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan Adran 3 (7) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gweler isod adroddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar lefel y defnydd o lwybrau teithio llesol.

| | |
|---|---|
| Nifer y Llwybrau Teithio Llesol presennol<br><br>*(Dim ond y rhai hynny sydd wedi'u nodi eu bod yn addas ar gyfer teithio llesol, nid pob llwybr yn y fwrdeistref sirol)* | **Llwybrau Cerdded**<br>Cyfanswm: 23 (heb gynnwys darnau unigol);<br>Cyfanswm yr hyd: 20.65km<br><br>**Llwybrau Beicio**<br>Cyfanswm: 1<br>Cyfanswm yr hyd: 1.16km<br><br>**Llwybrau Cyd-ddefnyddio**<br>Cyfanswm: 29<br>Cyfanswm yr hyd: 58.09km |
| Data sylfaenol yn 2016 | **Data'r Cynllun - Lefel y Defnydd**<br><br>Casglwyd y data canlynol ar gyfer y cynlluniau hynny a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac a ddarparodd data sylfaenol addas yn 2016. Nid yw hyn yn cynrychioli cyfanswm y data ar gyfer pob un o'r cynlluniau a nodir yn y crynodeb uchod.<br><br>1. <u>NCN 885 (llwybr allweddol i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr o aneddiadau tua'r gogledd).</u><br><br>Cynhaliwyd rhifiad llaw ac arolygon defnyddwyr y llwybr ddydd Mawrth 7 Gorffennaf 2016, a hynny rhwng 7am a 7pm. Cyfrifwyd 234 o ddefnyddwyr yn ystod cyfnod yr arolwg, ac roedd 207 o'r rhain yn oedolion a 27 ohonynt yn blant.<br><br>Ymhlith y 234 o ddefnyddwyr a gyfrifwyd, roedd 8 nad oeddent yn ddefnyddwyr teithio llesol (roedd 5 yn rhedeg a 3 yn cerdded eu cŵn). Mae'r dadansoddiad o'r 226 o ddefnyddwyr teithio llesol sy'n weddill fel a ganlyn:<br><br>Cerddwyr: Oedolion - 172 Plant – 26<br>Beicwyr: Oedolion - 23 Plant – 1<br>Â phram: Oedolion - 4<br><br>2. <u>Llangrallo i Bencoed (â mynediad i Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysgol Gyfun Pencoed).</u><br><br>Cynhaliwyd rhifiad llaw ac arolygon defnyddwyr y llwybr ddydd Mawrth 21 Mehefin 2016, a hynny rhwng 7am a 7pm. Cyfrifwyd 71 o ddefnyddwyr yn ystod cyfnod yr arolwg, ac roedd 70 o'r |

rhain yn oedolion ac 1 ohonynt yn blentyn.

Ymhlith y 71 o ddefnyddwyr a gyfrifwyd, roedd 16 nad oeddent yn ddefnyddwyr teithio llesol (roedd 11 yn rhedeg a 5 yn cerdded eu cŵn). Mae'r dadansoddiad o'r 55 o ddefnyddwyr sy'n weddill fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cerddwyr: | Oedolion - 15 | Plant – 1 |
| Beicwyr: | Oedolion - 39 | Plant – 0 |

3. <u>Trelales i Broadlands (Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i Ysgol Gynradd Trelales)</u>

Cynhaliwyd rhifiad llaw ac arolygon defnyddwyr y llwybr ddydd Mawrth 25 Mai 2016, a hynny rhwng 7am a 7pm. Cyfrifwyd 90 o ddefnyddwyr yn ystod cyfnod yr arolwg, ac roedd 55 o'r rhain yn oedolion a 35 ohonynt yn blant.

Ymhlith y 90 o ddefnyddwyr a gyfrifwyd, roedd 15 nad oeddent yn ddefnyddwyr teithio llesol (roedd 8 yn rhedeg a 7 yn cerdded eu cŵn). Mae'r dadansoddiad o'r 75 o ddefnyddwyr sy'n weddill fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cerddwyr: | Oedolion - 18 | Plant – 13 |
| Beicwyr: | Oedolion - 11 | Plant – 18 |
| Ar sgwter: | Plant - 3 | |
| Â phram: | Oedolion - 12 | |

**Data Teithiau Llesol**

Mae disgyblion yn y 27 o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Teithiau Llesol yn cymryd rhan mewn arolwg dwylo i fyny blynyddol. Mae cwestiwn 1 yr arolwg hwnnw yn gofyn i'r disgyblion sut y maen nhw fel arfer (gan amlaf) yn teithio i'r ysgol a dangosir eu hatebion isod.

<u>Ysgolion sy'n cymryd rhan mewn Teithiau Llesol yn 2016</u>

Ffigurau cyffredinol:

| **Dull o Deithio** | **Nifer yr ymatebwyr** | **%** |
|---|---|---|
| Beic | 23 | 3.4 |
| Cerdded | 171 | 24.5 |
| Ar sgwter/ Sglefrio | 22 | 3.2 |
| Car | 442 | 63.5 |
| Parcio a cherdded | 4 | 0.6 |
| Bws | 32 | 4.6 |
| Trên neu arall | 2 | 0.3 |

<table>
<tr><td></td><td><table><tr><td>Cyfanswm</td><td>696</td><td>100</td></tr></table></td></tr>
<tr><td>Pa ddata oedd ar gael i’ch awdurdod lleol i gofnodi defnydd?</td><td>Data arolwg defnyddwyr llwybrau a rhifiadau â llaw o gynlluniau a ariennir gan LlC;<br>Data Teithiau Llesol Sustrans – arolygon dwylo i fyny;</td></tr>
<tr><td>Data newydd yn 2017</td><td>Data’r Cynllun - Lefel y Defnydd<br><br>1. <u>NCN 885 (llwybr allweddol i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr o aneddiadau tua’r gogledd).</u><br><br>Cynhaliwyd rhifiad llaw ac arolygon defnyddwyr y llwybr ddydd Iau 25 Mai 2017, a hynny rhwng 8am ac 8pm. Cyfrifwyd 332 o ddefnyddwyr yn ystod cyfnod yr arolwg, ac roedd 292 o’r rhain yn oedolion a 40 ohonynt yn blant.<br><br>Ymhlith y 332 o ddefnyddwyr a gofnodwyd, roedd 18 nad oeddent yn ddefnyddwyr teithio llesol (roedd 10 yn rhedeg ac 8 yn cerdded eu cŵn). Mae’r dadansoddiad o’r 314 o ddefnyddwyr teithio llesol sy’n weddill fel a ganlyn:<br><br>Cerddwyr: Oedolion - 245 Plant – 33<br>Beicwyr: Oedolion - 20 Plant – 7<br>Cadair Olwyn: Oedolion - 2<br>Pram: Oedolion - 7<br><br>2. <u>Ysgol Gynradd Croesty ac Ysgol Gyfun Pencoed Llwybrau Diogel mewn Cymunedau</u><br><br>Cynhaliwyd rhifiad llaw ac arolygon defnyddwyr y llwybr ddydd Mercher 3 Mai 2017, a hynny rhwng 8am ac 8pm. Cyfrifwyd 533 o ddefnyddwyr yn ystod cyfnod yr arolwg, ac roedd 292 o’r rhain yn oedolion a 40 ohonynt yn blant. Gwnaeth sawl defnyddiwr yr un daith yn ôl ac ymlaen unwaith neu fwy, a hynny fel arfer er mwyn hebrwng plant yn ôl ac ymlaen i’r ysgol.<br><br>Ymhlith y 533 o ddefnyddwyr a gofnodwyd, roedd 29 nad oeddent yn ddefnyddwyr teithio llesol (roedd 9 yn rhedeg ac 20 yn cerdded eu cŵn). Mae’r dadansoddiad o’r defnyddwyr teithio llesol sy’n weddill fel a ganlyn:<br><br>Cerddwyr: Oedolion - 137 Plant – 293<br>Beicwyr: Oedolion - 14 Plant – 33<br>Ar sgwter: Plant - 13<br>Pram: Oedolion - 14<br><br>3. <u>Ffordd Gyswllt A473/A48 – Llwybr beicio Ffordd Fynediad i Ford</u><br><br>Cynhaliwyd rhifiad llaw ac arolygon defnyddwyr y llwybr ddydd</td></tr>
</table>

Mercher 11 Mai 2017, a hynny rhwng 8am ac 8pm. Cyfrifwyd 46 o ddefnyddwyr yn ystod cyfnod yr arolwg, ac roedd pob un o'r rhain yn oedolion.

Ymhlith y 46 o ddefnyddwyr a gofnodwyd, roedd 33 nad oeddent yn ddefnyddwyr teithio llesol (roedd 31 yn rhedeg a 2 yn cerdded eu cŵn). Mae'r dadansoddiad o weddill y defnyddwyr fel a ganlyn:

Cerddwyr: Oedolion - 11
Beicwyr: Oedolion - 2

4. Llangrallo i Bencoed

Nid yw'r data ar gyfer y llwybr o Bencoed i Langrallo wedi'i gasglu ar gyfer 2017 hyd yn hyn.

5. Llwybrau Diogel mewn Cymunedau o Drelales i Broadlands

Nid yw'r data ar gyfer y Llwybrau Diogel mewn Cymunedau o Drelales i Broadlands wedi'i gasglu ar gyfer 2017 hyd yn hyn.

**Data Teithiau Llesol**

Mae disgyblion mewn ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Teithiau Llesol yn cymryd rhan mewn arolwg dwylo i fyny blynyddol. Mae cwestiwn 1 yr arolwg hwnnw yn gofyn sut y maen nhw fel arfer (gan amlaf) yn teithio i'r ysgol a dangosir eu hatebion isod.

Ysgolion sy'n cymryd rhan mewn Teithiau Llesol yn 2016

Ffigurau cyffredinol:

| Dull o Deithio | Nifer yr ymatebwyr | % |
|---|---|---|
| Beic | 51 | 7.3 |
| Cerdded | 170 | 24.5 |
| Ar sgwter/ Sglefrio | 65 | 9.3 |
| Car | 377 | 54.2 |
| Parcio a cherdded | 7 | 0.9 |
| Bws | 27 | 3.8 |
| Trên neu arall | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **696** | **100** |

| | |
|---|---|
| Pa ddata fydd ar gael i gefnogi'r rhifyn nesaf o'r adroddiad hwn? | Arolygon defnyddwyr ffordd ar gyfer cynlluniau a ariennir trwy grantiau LlC;<br>Data teithiau llesol gan Sustrans. |

Rwyf yn cadarnhau y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar-lein ac y bydd copi papur ar gael trwy ofyn am un, yn unol â'r Canllawiau Cyflawni statudol.



Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth